CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CHWEFROR 16, 2016

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Brithdir
Nos Lun, Chwefror 16, 2016 am 7:00 o'r gloch.

Presennol Cynghorwyr: Rhun Prys Jones (Cadeirydd), Meurig Ashton, Gerallt Griffith a Huw A. Evans. Hefyd Henry M. Edwards.

1.Croeso'r Cadeirydd

Croesawyd pawb oedd yn bresennol.

2. Ymddiheuriadau: Mordaf Roberts, Peredur Jenkins, Barry Jones, Geraint Evans, Llion Rh. Williams ac Emlyn Roberts.

3. Datgan diddordeb.

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Ionawr 4, 2016

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Ionawr 4, 2016

Eitem 5. Eitem 10.a. Cafwyd cyfarfod i gael cynghorau dalgylch y Gader i gyd-weithio. Roedd 12 aelod yn bresennol. Yn bresennol o'r Cyngor oedd Peredur Jenkins, Meurig Ashton a Henry Edwards.

Mae'r cynghorau yn awyddus i barhau trafod cael cyngor gyd-weithio ond ddim yn gwybod sut i fynd ymlaen. Penderfynwyd cynnal cyfarfod i'r holl gynghorau yn nalgylch y Gader ym Mhenarlâg gydag Anwen Davies, Rheolydd Mentrau Cymdeithasol, Cyngor Gwynedd yn bresennol i roi arweiniad.

Eitem 10.a.i. Llythyr ateb (19 Ionawr, 2016) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod:

i. mae ein cais am arwyddion ar ffordd A494 ar bob ochr i fynedfa Dolserau Uchaf i rybuddio gyrwyr bod ceirw yn croesi'r ffordd wedi ei anfon ymlaen i Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Llythyr (1 Chwefror 2016) oddi wrth Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod maent am archwilio ein cais am arwyddion wrth Dolserau Uchaf.

ii. mae Ffordd Lefel, Llanfachreth ar gau gan Cyfoeth Naturiol Cymru oherwydd y coed sydd wedi cwympo. Mae cytundeb bydd CNC yn ysgubo'r ffordd cyn i Cyngor Gwynedd asesu cyflwr y ffordd i'w hail agor.

Eitem 9. a. ac b. Gyda chyfathrebu trwy lythyrau rhwng Peredur Jenkins a Kim Burnham, CNC, anfonwyd copi o'r llythyrau (dyddiad 7/1/2016, 10/1/2016, 25/1/2016 a 2/2/2016) ymlaen i'r aelodau. Y canlyniad i'r llythyrau yw bydd trafodaethau yn dal yn cael eu gwneud sut mae coed am gael eu torri i lawr ac os bydd cyflenwad trydan yn cael ei effeithio gan y gwaith.

6. Gohebiaeth

a. Derbyniwyd (5/1/2016) cwyn gan breswylydd Llanfachreth am faw cwn sydd yn y pentref ac angen biniau a phosteri i atal y mater. Rhoddwyd y mater i Cyngor Gwynedd.

a. Llythyr (5 Ionawr 2016) oddi wrth Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru yn diolch am ein rhodd o £250 tuag at Apêl Cylch Dolgellau - Sioe Frenhinol Cymru 2016.

b. Llythyr (Ionawr 2016) oddi wrth Siôn Emlyn Williams-Jones, Drws-y Nant. Bydd grŵp o Urdd Gobaith Cymru yn mynd i Patagonia ym mis Hydref 2016. Yno mi fydd yn gwneud pob math o waith gwirfoddol. Mae angen cymorth ariannol at y prosiect.

c. Cais (15/1/2015) oddi wrth Harlequin Group am fwriad i osod transfformyr / polyn 12m o uchdwr ar dir Coedrhoslwyd.

d. Llythyr (Ionawr 2016) oddi wrth Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth - Cyfarfodydd Cymunedol. Maent yn rhoi gwybod bydd cyfarfod i drafod dyfodol gofal iechyd yng Nghanolbarth Cymru. Mae'r cyfarfod yn Neuadd WI, Blaenau Ffestiniog (lle agosaf) ar Chwefror 2 am 6.00yp.

dd. Copi o Newyddlen - Dalgylch y Gader, Ionawr 2016 oddi wrth Addysg, Cyngerdd Gwynedd. Mae Mrs Jano Owen wedi ei phenodi fel Pennaeth i arwain yr ysgol newydd yn nalgylch Y Gader. Ei gwaith cyntaf bydd llunio strwythur staffio newydd gyda'r Llywodraethwyr. Mae newidiadau yn cael ei wneud yn Ysgolion Cynradd Dolgellau, Llanelltyd a Rhydymain.

e. Llythyr (4/2/2016) oddi wrth Un Llais Cymru gan gynnwys:

a. rhybudd yn rhoi gwybod bydd Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn y Pafiliwn Criced, Dolgellau ar Chwefror 24, 2016 am 7.00yh. Amgáu mae agenda'r cyfarfod.

b. Cofnodion Pwyllgor Ardal Meirionnydd oedd ar Tachwedd 25, 2015.

c. Ateb i gwestiwn beth yw'r cynllun i gynghorau tref / cymuned i gymryd drosodd cyfrifoldeb biniau halen.

ch. Adroddiad y Grŵp Cyfeiriol Budd Ddeiliaid Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.

d. Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol yn Llanfair y Muallt ar Rhagfyr 4, 2015.

f. Lythyr (Chwefror 2016) oddi wrth Urdd Gobaith Cymru. Maent angen cymorth ariannol tuag at Eisteddfod yr Urdd Sir Fflint 2016.

ff. Llythyr (6/2/2016) oddi wrth Llên y Llannau. Maent angen cymorth ariannol.

g. Llythyr (6 Chwefror 2016) oddi wrth Cyngor Tref Porthmadog. Oherwydd bydd Swyddfa Dreth Incwm yn Nhŷ Moelwyn Porthmadog yn cau gyda cholled o dros ugain o swyddi, a'r swyddi yn symud i Gaerdydd, mae'r Cyngor wedi trefnu cyfarfod cyhoeddus dydd Sadwrn Chwefror 20, 2016 yn Y Ganolfan Gymdeithasol, Porthmadog am 11.00 yb. Amgau mae posteri i roi gwybod am y cyfarfod.

Rhoddwyd y posteri ar hysbysfyrddau yr ardal.

h. Llythyr (27 Ionawr, 2016)) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith atgyweirio pont droed a llwybr yn Ceunant Hyll.

i. Llythyr (5 Chwefror 2016) oddi wrth Cefnogaeth Gorfforaethol, Cyngor Gwynedd yn gwadd aelodau Cynghorau Cymuned a Thref i gyfarfod i drafod:

1. toriadau i wasanaethau bydd yn cael eu gwneud gan Cyngor Gwynedd a'r oblygiadau bydd y rhain yn cael yn ein hardal,

2. diweddaru aelodau o'r gwaith sy'n mynd ymlaen o gefnogi Cynghorau sydd â diddordeb cymryd cyfrifoldeb am wasanaethau,

3. cefnogaeth sydd ei hangen i hwyluso'r gwaith uchod.

Mae'r cyfarfod oherwydd yr her sy'n wynebu Cyngor Gwynedd gyda thoriadau i wasanaethau bydd yn cael eu rhoi ger bron y Cyngor Llawn am benderfyniadau ar 3 Mawrth 2016.

Bydd y cyfarfod yn Ysgol y Gader, Dolgellau (lle agosaf) ar 1/3/2016 am 6.00yh.

Rhoddwyd copi o'r eitem i'r aelodau.

j. Llythyr (9 Chwefror, 2016) oddi wrth Neuadd Bentref Llanfachreth. Maent angen cymorth ariannol.

l. Llythyr (16/2/2018) oddi wrth Pwyllgor Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth. Maent angen cymorth ariannol.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Cais cynllunio:

i. Cais NP5/54/447. Ailwampio strwythurol yn cynnwys gosod cladin allanol. 1 & 4 Hengaer, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais, ond ar yr amod nid yw'r gwaith yn cael effaith negyddol ar y ddau dŷ drws nesaf. 21/1/2016.

ii. Cais NP5/54/LB76C. Caniatâd Adeilad Rhestredig i ychwanegu cawod yn ystafell wely 1. Cae'r March, Llanfachreth.

Penderfynwyd cefnogi'r cais. 26/1/2015.

8. Materion Ariannol

a. Ceisiadau derbyniwyd am gymorth ariannol 2015 / 2016:

Cyngor ar Bopeth Gwynedd a De Ynys Môn, Ambiwlans Awyr Cymru, Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen, Shelter Cymru, Dawns Gymuned ar Gyfer Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn, Marie Curie, Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy a'r Cyffiniau 2016, Y Groes Goch Brydeinig, Cymdeithas Undebol Machreth, Urdd Gobaith Cymru (taith Patagonia), Urdd Gobaith Cymru (Eisteddfod yr Urdd Sir Fflint 2016). Llên y Llannau, Neuadd Bentref Llanfachreth, Pwyllgor Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth.

Penderfynwyd rhoi arian i sefydliadau canlynol:

Neuadd Brithdir: £500.00
Neuadd Rhyd y Gorlan: £500.00
Neuadd Llanfachreth: £500.00
Neuadd Rhydymain: £500.00
Ysgol Brithdir: £200.00
Ysgol Rhydymain: £200.00
Clwb Ffermwyr Ifanc Dolgellau: £200.00
Eisteddfod Llanfachreth: £200.00
Llên y Llannau: £50.00
Papur Llafar y Deillion Dolgellau a'r Cylch: £50.00
Ambiwlans Awyr Cymru: £200
Eisteddfod Urdd Gobaith Cymru (Eisteddfod Sir Fflint 2016): £100
Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd: £250
Sioe Frenhinol Cymru 2016 - Pwyllgor Apêl Cylch Dolgellau: £250
Pwyllgor sy'n trafod dyfodol neuadd ac ysgol Llanfachreth £300

Cyfanswm = £4,000.00

Penderfynwyd gwrthod cais Urdd Gobaith Cymru (taith Patagonia,) Siôn Emlyn Williams-Jones, Drws-y Nant. Y rheswm yw bod y cais gan unigolyn ac nid sefydliad.

b. Llythyr (6 Ionawr 2014) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan adran 137(1) ac (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. 'Gwariant Adran 137': Y terfyn ar gyfer 2015-16. Maent yn rhoi gwybod gall cyngor cymuned wario yn 2015-16 hyd at uchafswm o £7.36, am bob etholwr, i sefydliadau sydd angen arian.

Bydd yr uchafswm yn £7.36 x 601 = £4,423.36.

c. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Rhagfyr, 2015: £1,135.46.

ch. Balans yn y banc ar 29 Rhagfyr, 2015: £8,787.71.

d. Llythyr (Ionawr 2016) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan adran 137(1) ac (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. 'Gwariant Adran 137': Y terfyn ar gyfer 2016-17. Maent yn rhoi gwybod gall Cynghorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17 £7.42, am bob etholwr, i sefydliadau sydd angen arian.

Bydd yr uchafswm yn £7.42 x 601 = £4,459.42.

dd. Llythyr (27 Ionawr 2016) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod beth maent yn eu gwneud. Amgáu mae ffurflen yn gwahodd y Cyngor i adnewyddu aelodaeth ag Un Llais Cymru o fis Ebrill 2016. Tâl Aelodaeth yw £116.

Penderfynwyd talu'r aelodaeth.

e. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Ionawr 2016: £1,135.53.

f. Balans yn y banc ar 29 Ionawr 2016: £8.347.41.

9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

Nid oedd adroddiad.

10. Unrhyw fater arall

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen:

i. idddynt archwilio dwy goeden ger yr hen droad yn 'top Torrent' am eu bod yn dangos maent wedi pydru.

ii. grid i gylfat sydd wrth bin halen yn Doluwchadda ar ffordd Goriwaelod, Llanfachreth.

iii. llenwi tyllau sydd rhwng Maes yr Eglwys Wen a Dolfrwynog, Hermon.